

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr)
i Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban),
Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
2020

The A55 Trunk Road (Junction 2
(Tŷ Mawr Interchange) to Junction
5 (Treban Interchange), Anglesey)
(Temporary Prohibition of
Vehicles, Cyclists & Pedestrians)
Order 2020

Gwnaed 10 Medi 2020

Made 10 September 2020

Yn dod i rym 16 Medi 2020

Coming into force 16 September 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) i Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 16 Medi 2020.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange) to Junction 5 (Treban Interchange), Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2020 and it comes into force on 16 September 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 London to Holyhead trunk road;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

gloch ar 16 Medi 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

4. Tra bo traffig yn cael ei wahardd gan erthygl 3 rhag symud ar gerbyttffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ond, yn unol ag erthygl 8, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbyttffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

5. Tra bo traffig yn cael ei wahardd gan erthygl 3 rhag symud ar gerbyttffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ond, yn unol ag erthygl 8, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbyttffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 3 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 3 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

9. Nid yw'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 16 September 2020 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 2 to this Order.

4. Whilst movement is, by article 3, prohibited in the eastbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 2 but pursuant to article 8 not prohibited in the westbound carriageway, no person may, during the works period, drive any vehicle in the offside lane of the westbound carriageway of the length of the trunk road in any direction other than eastwards;

5. Whilst movement is, by article 3, prohibited in the westbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 2 but pursuant to article 8 not prohibited in the eastbound carriageway, no person may, during the works period, drive any vehicle in the offside lane of the eastbound carriageway of the length of the trunk road in any direction other than westwards.

6. No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or exceeding 3.2 metres on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

7. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 3 to this Order.

8. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 3 to this Order.

Application

9. The prohibitions in articles 3, 4, 5, 6, 7 and 8 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

10. The maximum duration of this Order is 18 months.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

10 Medi 2020



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

10 September 2020



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 280 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) hyd at bwynt 270 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban), gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyffordd 3 (Pencaledog) a Chyffordd 4 (Dalar Hir).

ATODLEN 2

Gwrthlif a Gwahardd Cerbydau Llydan (dros 3.2 metr) Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 900 metr i'r gorllewin o drosbont Cyffordd 3 (Pencaledog) hyd at bwynt 600 metr i'r dwyrain o Gyffordd 4 (Dalar Hir).

ATODLEN 3

Gwahardd Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 270 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 3 (Pencaledog) hyd at bwynt 280 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 4 (Dalar Hir).

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians

The length of the trunk road that extends from a point 280 metres west of Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange) to a point 270 metres east of Junction 5 (Treban Interchange), including the westbound and eastbound entry slip roads at Junction 3 (Pencaledog) and Junction 4 (Dalar Hir).

SCHEDULE 2

Contraflow & Temporary Prohibition of Wide Vehicles (over 3.2 metres)

The length of the A55 trunk road that extends from a point 900 metres west of Junction 3 (Pencaledog) over-bridge to a point 600 metres east of Junction 4 (Dalar Hir).

SCHEDULE 3

Temporary Prohibition of Cyclists & Pedestrians

The length of the A55 trunk road that extends from a point 270 metres west of Junction 3 (Pencaledog) to a point 280 metres east of Junction 4 (Dalar Hir).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(CYFFORDD 2 (CYFNEWIDFA TŶ MAWR) I
GYFFORDD 5 (CYFNEWIDFA TREBAN), YNYS
MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A
CHERDDWYR DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) a Chyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban), Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd rhwng cyffyrdd penodedig o fewn y darn cyfan o gefnffordd yr A55 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn pan fo gwaith yn cael ei wneud ar safle penodol. Mae angen y gwaharddiadau dros dro, a fydd yn digwydd fesul cam, er mwyn gweithredu, newid a dadosod rheolaeth traffig a byddant yn cynnwys cau dros nos (19:00 – 05:00 o'r gloch) naill ai gerbyttffordd tua'r dwyrain neu gerbyttffordd tua'r gorllewin yr A55. Codir arwyddion gwybodaeth ymlaen llaw er mwyn hysbysu'r cyhoedd am y prif adegau pan fydd y cerbyttffyrdd ar gau. Disgrifir y trefniadau ar gyfer llwybrau eraill hefyd yn Atodlen 1.

Bydd angen cau'r darn o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn dros dro o bryd i'w gilydd y tu allan i'r adegau a grybwyllir uchod er mwyn addasu'r rheolaeth traffig a hebrwng cerbydau llydan drwy'r gwrthlif. Dim ond am gyfnodau byr y bydd angen gwneud hyn ac ni fydd angen llwybrau eraill.

ii. Cau naill ai gerbyttffordd tua'r dwyrain neu gerbyttffordd tua'r gorllewin y darn o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwrthlif yn gweithredu yn lôn allanol pa gerbyttffordd bynnag a fydd yn aros ar agor i draffig.

iii. Gwahardd pob cerbyd dros 3.2 metr o led rhag mynd ar y darn o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Caiff unrhyw gerbydau o'r fath eu cyfarwyddo i barcio mewn cilfannau penodedig a chânt eu hebrwng drwy safle'r gwaith.

iv. Gwahardd beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darnau o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlenni 1 a 3 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 16 Medi 2020 ac yn weithredol yn ysbeidiol tan 05:00 o'r gloch ar 15 Tachwedd 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 2 (TŶ
MAWR INTERCHANGE) TO JUNCTION 5
(TREBAN INTERCHANGE), ANGLESEY)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES,
CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange) and Junction 5 (Treban Interchange), Anglesey.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding between specified junctions within the overall length of the A55 trunk road described in Schedule 1 to this Notice when work is undertaken at a specific site. The temporary prohibitions, which will be done in phases, are needed to implement, change and remove traffic management and will involve overnight closures (19:00 – 05:00 hours) of either the eastbound or westbound carriageway of the A55. Advance information signs will be displayed to notify the public of all main closures. The alternative route arrangements are also described in Schedule 1.

Some temporary closures on the length of the A55 described in Schedule 2 to this Notice will be required outside the aforementioned times to adjust the traffic management and escort wide vehicles through the contraflow. These will only be for short periods of time and no alternative routes will be required.

ii. Close either the eastbound or westbound carriageway of the length of the A55 described in Schedule 2 to this Notice. Contra-flow will operate in the offside lane of whichever carriageway remains open to traffic.

iii. Prohibit all vehicles over 3.2 metres wide from proceeding on the length of the A55 described in Schedule 2 to this Notice. Any such vehicles will be directed to park in designated lay-bys and will be escorted through the works site.

iv. Prohibit cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 described in Schedules 1 and 3 to this Notice.

The temporary prohibitions are expected to come into force at 19:00 hours on 16 September 2020 and will operate intermittently until 05:00 hours on 15 November 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 280 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) hyd at bwynt 270 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban), gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyffordd 3 (Pencaledog) a Chyffordd 4 (Dalar Hir).

Y llwybr arall ar y prif adegau pan fydd y cerbyttyrdd ar gau rhwng y gwahanol gyffyrdd fydd mynd ar yr A5 tua'r dwyrain neu tua'r gorllewin ac ymuno â'r A55 wrth y gyffordd nesaf sydd ar gael.

ATODLEN 2


Gwrthlif a Gwahardd Cerbydau Llydan (dros 3.2 metr) Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 900 metr i'r gorllewin o drosbont Cyffordd 3 (Pencaledog) hyd at bwynt 600 metr i'r dwyrain o Gyffordd 4 (Dalar Hir).

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians and Alternative Routes

The length of the trunk road that extends from a point 280 metres west of Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange) to a point 270 metres east of Junction 5 (Treban Interchange), including the westbound and eastbound entry slip roads at Junction 3 (Pencaledog) and Junction 4 (Dalar Hir).

The alternative route for main carriageway closures between the various junctions is via eastbound or westbound A5 to join the A55 at the next available junction

SCHEDULE 2

Contraflow & Temporary Prohibition of Wide Vehicles (over 3.2 metres)

The length of the A55 trunk road that extends from a point 900 metres west of Junction 3 (Pencaledog) over-bridge to a point 600 metres east of Junction 4 (Dalar Hir).

ATODLEN 3

Gwahardd Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 270 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 3 (Pencaledog) hyd at bwynt 280 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 4 (Dalar Hir).

SCHEDULE 3

Temporary Prohibition of Cyclists & Pedestrians

The length of the A55 trunk road that extends from a point 270 metres west of Junction 3 (Pencaledog) to a point 280 metres east of Junction 4 (Dalar Hir).